

Ein hymateb



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

# Brexit a'n Tir:

## Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru

---





## Crynodeb

Ym mis Gorffennaf y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Brexit a'n Tir*, ymgynghoriad pellgyrhaeddol ar ddyfodol cymorth amaethyddol yng Nghymru.

Yn ystod yr haf a'r hydref, cynhaliwyd un o'n hymgyngoriadau mwyaf erioed ymhlith ffermwyr, cymunedau gwledig, grwpiau amgylcheddol ac unigolion â buddiant.

Daw'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) i ben wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, rydym yn credu bod yr achos dros gefnogi ffermwyr yn para'n gryf.

Yn wyneb yr ymarferiad ymgynghori, rydym yn bwriadu gwneud nifer o newidiadau i'n cynigion polisi.

Rydym bellach yn bwriadu dilyn amcan cyffredinol o reoli tir yn gynaliadwy. Ein huchelgais yw cael ffermydd cynaliadwy i gynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus mewn system sy'n gwella llesiant ffermwyr, cymunedau a phobl Cymru gyfan.

Rydym yn cynnig cynllun cynaliadwyedd fferm i ddarparu ffrwd incwm i ffermwyr yn gyfnewid am gyflawni canlyniadau rheoli tir cynaliadwy, fel ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac iechyd anifeiliaid. Gellir cyflawni llawer o'r canlyniadau hyn trwy gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

Mae ansicrwydd parhaus Brexit yn golygu na allwn wneud penderfyniadau ar yr amserlen ar gyfer diwygio ar hyn o bryd. Ni fyddwn yn gwneud newidiadau nes ein bod wedi ystyried ymatebion i ymgynghoriad pellach a'r asesiadau effaith perthnasol, nac ychwaith nes y gallwn ddangos bod system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol.

Bydd dogfen ymgynghori arall yn cael ei chyhoeddi ddechrau mis Gorffennaf eleni. Byddwn wedyn yn gweithio gyda ffermwyr ac eraill mewn proses o gydgyllunio i helpu i bennu'r manylion.

Rydym yn ddiolchgar am y drafodaeth a gawsom drwy'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* a bydd ein polisi yn y dyfodol yn well o'i herwydd.



**Mae'r datganiad hwn yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar *Brexit a'n Tir*. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad dilynol manylach ym mis Gorffennaf eleni.**

### Ymgynghoriad Brexit a'n Tir

Y llynedd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru un o'r ymgynghoriadau mwyaf erioed ymhlith ffermwyr, cymunedau gwledig, grwpiau amgylcheddol ac unigolion â buddiant. Cawsom dros 12,000 o ymatebion i ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* a daeth dros 1,000 o unigolion i'r digwyddiadau ymgysylltu. Mae maint yr ymgynghoriad yn adlewyrchu sector sy'n ymgysylltu'n dda. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at y ddatllyth genedlaethol hon ar sut i gefnogi ffermwyr Cymru a thir Cymru.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni ymchwil annibynnol (Miller Research Ltd) i gynhyrchu crynodeb cynhwysfawr o'r ymatebion. Caiff crynodeb llawn o'r ymatebion ei gyhoeddi gyda'r datganiad hwn.

Mae'n amlwg o'r crynodeb o ymatebion fod y safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr yn gryf ac yn eang iawn. Yn fras iawn, roedd tua hanner yr ymatebwyr o blaid y cynigion a'r hanner arall yn gwrthwynebu. Yn gyffredinol, mynegodd ffermwyr bryderon am y cynigion tra bod grwpiau amgylcheddol yn eu cefnogi. Yr oedd llawer o eithriadau o fewn y datganiadau cyffredinol hyn. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif helaeth yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi ffermwyr Cymru a thir Cymru – ond y cwestiwn mawr yw beth yw'r ffordd orau o wneud hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion a ddaeth i law yn ofalus, ac mae'n bwriadu gwneud nifer o newidiadau i'w chynigion polisi mewn ymateb i hynny. Trafodir y rhain isod a byddant yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr ymgynghoriad arfaethedig.

### Achos cyffredinol dros newid

Cyflwynodd *Brexit a'n Tir* yr achos dros ddiwygio taliadau cymorth i ffermydd ar ôl Brexit. Yn yr ymgynghoriad, esboniwyd bod y system bresennol yn darparu cymorth pwysig ond ei bod wedi'i chynllunio ar gyfer gwledydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn hon. Mae aelodaeth o'r UE yn golygu bod ein ffermwyr a'u cadwyni cyflenwi ar hyn o bryd yn elwa ar gael mynediad i farchnad fawr iawn sy'n rhydd o dariffau a chostau trafodiadau. Mae llawer o ansicrwydd yn bodoli o hyd ynghylch perthynas fasnachu newydd y DU ag Ewrop, ond mae'n amlwg y byddwn yn wynebu heriau newydd wrth weithredu y tu allan i'r undeb economaidd.

O beidio â bod yn aelod o floc masnachu blaenllaw, bydd y DU – ac felly Cymru – yn dod yn fwy agored i rymoedd masnach fyd-eang. O ganlyniad, bydd angen i ffermydd fod yn fwy cydnorth. Ni fydd trosi'r Polisi Amaeth Cyffredin (PAC) yn gyfraith yng Nghymru ynddo'i hun yn ddigon i roi'r cydnorthedd hwnnw. Yn arbennig, nid yw'r cymorth incwm presennol yn gallu niwtraleiddio effaith y risgiau anfanteisiol mawr fydd yn wynebu'r amgylchedd masnachol (sef canlyniad llawer o senarios Brexit).

Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn golygu y bydd gan Gymru bwerau i sefydlu ei system ei hun ar gyfer cefnogi ffermydd am y tro cyntaf. Er mwyn penderfynu sut i ddefnyddio'r bwerau hyn, y man cychwyn yw ein rhwymedigaethau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd amlweddol ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu mewn modd cynaliadwy er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yn ogystal, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno set arall o egwyddorion a dyletswyddau a gynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o reoli adnoddau naturiol a bioamrywiaeth yn gynaliadwy yng Nghymru. Rhaid i'r rhwymedigaethau yn y Deddfau hyn fod yn sail i bolisiâu Llywodraeth Cymru.

Y system bresennol o gymorth i ffermwyr yw'r PAC. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddarparu drwy'r BPS. Er ei fod yn rhoi cymorth pwysig, mae'r BPS yn gymorth incwm cyffredinol sydd wedi'i ddatgysylltu oddi wrth ganlyniadau.

Bydd y BPS yn dod i ben wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Er mwyn penderfynu beth ddylai gymryd ei le, byddai'n dda o beth ystyried y cymorth i ffermwyr yng nghyd-destun saith nod llesiant Cymru, fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn ystyried hynny ymhellach yn y ddogfen ymgynghori ym mis Gorffennaf.

Mae'r pecyn tystiolaeth ategol '*Amaethyddiaeth yng Nghymru*' yn nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r ystyriaeth hon, yn arbennig mewn perthynas â chynhyrchiant a pherfformiad ffermydd, dosbarthiad y BPS ymhlith ffermydd a dangosyddion amgylcheddol.

## Cymru lewyrchus

Roedd rhan fwyaf o sylwadau yr ymgynghoriad am y BPS yn ymwneud â'i rôl wrth helpu ffermydd i oroesi. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o ffermwyr yn dibynnu ar gymhorthdal incwm i wneud elw. Mae'n iawn rhoi cymorth o gofio rôl allweddol ffermio yn ein hamgylchedd, ein cymunedau a'r economi wledig. Fodd bynnag, er bod y BPS yn amlwg yn cefnogi sefyllfa ariannol ffermydd, nid yw'r taliad yn cefnogi'r ffactorau ehangach sy'n sbarduno ffyniant.

Rydym yn cynnig mai'r ffordd orau o helpu ffermwyr i sicrhau ffyniant hirdymor yw drwy hyrwyddo pob agwedd ar gynaliadwyedd – economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys defnyddio'r amgylchedd naturiol i gefnogi ffyniant economaidd ffermwyr. Yn eu tro, gall ffermydd ffyniannus gyfrannu at gadwyni cyflenwi ffyniannus a chymunedau gwledig ffyniannus.

## Cymru gydnerth

Mae'r BPS yn atal gwario arian ar ymyriadau penodol i wella pob math o gydnerthedd. Yn benodol, nid yw'n caniatáu ar gyfer ymyriadau i ddarparu ar gyfer cydnerthedd amgylcheddol – amod angenrheidiol ar gyfer ffyniant hirdymor. Mae ffermwyr yn gofalu am lawer o amgylchedd naturiol Cymru ac felly mae ganddynt rôl allweddol o safbwynt diogelu a gwella ein hecosystemau. Nid yw'r BPS yn cydnabod hyn, nac yn annog mesurau lliniaru digonol ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd er mwyn lleihau'r risg i genedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys ffermwyr y dyfodol.

Rydym yn cynnig y dylai cymorth i ffermydd helpu busnesau fferm i fod yn gydnerth a pharhau i fod felly – yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.

## Cymru iachach

Nid yw strwythur y BPS yn caniatáu i ni dargedu canlyniadau sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau iechyd pwysicaf ein cymdeithas, er enghraifft glanhau ein haer, glanhau ein dŵr a darparu cyfleoedd ar gyfer hamddena corfforol.

Rydym yn cynnig y dylai cymorth i ffermydd hyrwyddo dulliau rheoli tir sy'n cyfrannu at greu Cymru iachach.

## Cymru sy'n fwy cyfartal

Yn y gorffennol, mae cymorth incwm wedi bod yn seiliedig ar hawl yn hytrach nag angen. Er bod hyn i fod i ddod i ben pan fydd y newid i daliadau cyffredinol sy'n seiliedig ar arwynebedd wedi'i gwblhau, ni fydd unrhyw gysylltiad o hyd rhwng lefel y cymorth a'r angen, ymdrech neu berfformiad. Nid yw hyn yn deg i ffermwyr, yn enwedig i ffermwyr newydd neu ifanc sy'n ceisio dod i mewn i'r diwydiant. Yn yr un modd, nid yw hyn yn ddefnydd teg o arian cyhoeddus cynyddol brin.

Rydym yn cynnig y dylai cymorth i ffermydd fod ar gael yn deg ac y dylid cysylltu lefelau taliadau ag ymdrechion ffermwyr ar lawr gwlad.

## Cymru o gymunedau cydlynus

Mae cymorth y BPS wedi helpu i gadw ffermwyr ar y tir. Mae'r ffermydd hyn yn dod â gweithgarwch economaidd i gefn gwlad Cymru, gan gefnogi cymunedau gwledig. Mae angen cynnal hyn, ond mae mewn perygl os nad yw busnesau fferm yn gydnerth.

Rydym yn cynnig y dylai cymorth i ffermydd gefnogi cymunedau gwledig trwy hyrwyddo ffermydd cydnerth a hyrwyddo gweithgarwch parhaus ar y tir.

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae ffermio yn ddiwydiant sy'n sylfaen i ddiwylliant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darparu cymorth i ffermwyr yn helpu i gynnal hyn.

Rydym yn cynnig y dylai cymorth i ffermydd sicrhau cydnerthedd busnesau fferm er mwyn diogelu dyfodol hirdymor ffermio ac felly sicrhau manteision ehangach o ran diwylliant a'r Gymraeg.

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang

Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i wneud ein rhan i ymateb i heriau byd-eang, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy. Nid yw'r BPS yn targedu gwell canlyniadau.

Cynigiwn y dylai cymorth i ffermydd ein helpu i fynd i'r afael â heriau byd-eang er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau byd-eang

## Casgliad

Bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno heriau newydd sy'n ein gorfodi i ystyried y ffordd orau o ddarparu cymorth i ffermwyr. Fel y dywedir uchod, bydd y BPS yn dod i ben wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ni chaiff unrhyw benderfyniad ynghylch cynlluniau'r dyfodol eu gwneud heb ymgynghori pellach ac asesu'i effaith. Bydd hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd mawr a pharhaus ynghylch natur Brexit.

Ond fel mae pethau ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru'n credu bod rhoi'r un cymorth incwm i bawb heb ei gysylltu â'r canlyniadau yn ffordd effeithiol o gefnogi ffermwyr, o ran y cyd-destun economaidd newydd nac yng nghyd-destun ein fframwaith deddfwriaethol unigryw.

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) ar gyfer Cymru wedi ceisio darparu cymorth wedi'i dargedu i fynd i'r afael â llawer o'r materion a nodwyd uchod. Yn wir, Cymru yw'r unig weinyddiaeth yn y DU sydd wedi trosglwyddo'r uchafswm ariannol i'r rhaglen. Fodd bynnag, er bod y Rhaglen wedi cyflawni nifer o ganlyniadau cadarnhaol, mae cymhlethdod gweinyddol a chyllid wedi cyfyngu ar ei llwyddiant cyffredinol.

Wrth roi rhywbeth yn lle'r BPS a'r RhDG, mae Llywodraeth Cymru felly'n bwriadu symud oddi wrth y cynllun cymorth incwm i bawb sy'n seiliedig ar

dir o dan reolaeth, i system newydd sy'n talu am ganlyniadau wedi'u targedu. Ymgynghorir ar hyn ymhellach ym mis Gorffennaf.

## Rheoli tir yn gynaliadwy

Gydol yr ymgynghoriad, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru nad oedd cadw'r sefyllfa bresennol yn opsiwn gan fod y DU wedi penderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r PAC. Rydym wedi gwrandao ar yr ymatebion i'r cynigion sydd wedi'u rhoi ger bron i gymryd lle'r PAC a'u hystyried. Yng ngoleuni'r rhain, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu addasu ei chynigion ar gyfer diwygio.

Ar sail adborth o'r ymgynghoriad a llif fframwaith deddfwriaethol Cymru a drafodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ceisio cyflawni amcan o reoli tir yn gynaliadwy.

Mae rheoli tir yn gynaliadwy yn cydbwysu anghenion y genhedlaeth bresennol â'n rhwymedigaethau i'r genhedlaeth nesaf, gan gynnwys ffermwyr y dyfodol yng Nghymru. Y nod cyffredinol yw cael ffermydd cynaliadwy i gynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus mewn system gyfannol sy'n gwella llesiant ffermwyr, cymunedau a holl bobl Cymru.

Mae cynhyrchu bwyd yn elfen hanfodol o reoli tir yn gynaliadwy. Bydd dull cynaliadwy yn galluogi ffermydd i gynhyrchu nwyddau cyhoeddus yn sgil cynhyrchu bwyd.

Drwy ganolbwyntio'r cymorth ar gynaliadwyedd cyffredinol, ein nod yw symud y tu hwnt i ystyried cynhyrchiant cymorth economaidd ar ei ben ei hun. Mae'r cyntaf yn sicrhau bod potensial cynhyrchiol hirdymor tir yn cael ei gadw a'i wella tra gallai'r olaf fod yn ddibynnol ar ddefnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol.

Rydym yn cynnig y dylai'r system newydd gael ei thargeddu ar ganlyniadau. Mae hyn yn rhoi sylfaen i dir Cymru a'i ffermwyr i'w helpu i wynebu'r llw o heriau sy'n wynebu ein gwlad. Dyma'r unig ffordd y gallwn ddefnyddio potensial tir Cymru a ffermwyr

Cymru i helpu i gyflawni llawer o ymrwymadau Llywodraeth Cymru, er enghraifft gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, cyflawni cyllidebau carbon a chyrraedd targedau aer glân.

## Cynllun ffermio cynaliadwy

Cynaliadwyedd yw'r cysyniad sy'n clymu'r cynlluniau Cadernid Economaidd a Nwyddau Cyhoeddus a gynigir yn *Brexit a'n Tir*. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfuno'r elfennau ffermio sy'n rhan o'r cynlluniau Cadernid Economaidd a Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig yn un cynllun ffermio cynaliadwy.

Nodir natur lefel uchel arfaethedig y cynllun isod. Bydd y cynigion hyn yn amodol ar ganlyniad ymgynghori pellach ym mis Gorffennaf.

Diben y cynllun dan sylw fydd darparu cyllid i ffermydd yn gyfnewid am gyflawni canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy nad ydynt yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad.

Cynigir bod y cynllun newydd yn cynnwys dau fath o gymorth eang: taliadau fferm cynaliadwy a mesurau datblygu busnes.

Fel y cynigiwyd yn *Brexit a'n Tir*, bwriedir i'r system newydd ddisodli'r BPS a phrif elfennau'r RhDG, yn enwedig y cynlluniau amaeth-amgylcheddol a chymorth busnes i ffermydd sy'n bodoli eisoes.

## Taliadau ffermio cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig talu ffrwd arian referniw yn gyfnewid am ganlyniadau nwyddau cyhoeddus – taliadau ffermio cynaliadwy.

Bydd y rhan fwyaf o ganlyniadau nwyddau cyhoeddus yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae *Brexit a'n Tir* yn nodi enghreifftiau o ganlyniadau amgylcheddol y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried eu cefnogi, er enghraifft datgarboneiddio, gwella ansawdd dŵr ac aer a chynefinoedd cydnerth.

Nid yw cynhyrchu bwyd yn nwydd cyhoeddus ynddo'i hun, yn ôl Llywodraeth Cymru. Mae hyn oherwydd bod yna farchnad weithredol ar gyfer bwyd. Fodd bynnag, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi canfod bod cynhyrchu bwyd a chynhyrchu nwyddau cyhoeddus yn ategu ei gilydd ac nad ydynt yn unigryw i'w gilydd. Mae hyn yn gyson â'r egwyddor o reoli tir yn gynaliadwy a ddisgrifir uchod.

Ceir gorgyffwrdd sylweddol rhwng arferion ffermio cynaliadwy priodol a sicrhau canlyniadau o ran cyflenwi nwyddau cyhoeddus. Gall yr un camau, o'u gwneud yn y ffordd gywir, gyfrannu at gynhyrchu bwyd a chynhyrchu canlyniadau nwyddau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru am dalu am y canlyniadau hyn.

Er enghraifft, byddai dull mwy penodol o ddefnyddio maethynnau yn atal gormod o wrteithiau rhag cael eu hidlo i'r amgylchedd, gan ddarparu manteision i ansawdd ein pridd, dŵr ac aer. Byddai'r dull hwn o reoli maethynnau hefyd yn rhoi gwell gwerth am arian i'r ffermwr drwy leihau costau gwrtaith. Byddai cefnogi ffermwyr i ymgorffori'r newidiadau hyn yn eu dulliau rheoli ffermydd bob dydd o fudd felly i sefyllfa amgylcheddol ac economaidd ffermydd.

Drwy sicrhau bod modd darparu nwyddau cyhoeddus drwy ffermio, gallwn sicrhau bod gan bob math o ffermydd y potensial i ymuno â'r cynllun os ydynt yn dymuno. Mater i'r ffermwr fydd penderfynu pa gyfleoedd nwyddau cyhoeddus maen nhw'n dymuno eu cymryd ac felly pa newidiadau y gall fod angen iddynt eu gwneud er mwyn eu cyflawni. Bydd angen cyfres eang o gyfleoedd nwyddau cyhoeddus i sicrhau bod digon o opsiynau ar gyfer pob math o ffermydd yng Nghymru. Yn benodol, rhaid i ffermydd llawr gwlad ac ucheldir gael mynediad teg.

Drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau, ein huchelgais yw bod yn llai rhagnodol na chynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol. Bydd yna amrywiaeth o gamau posibl gall ffermwr ddewis eu cymryd a'i gyfrannu at gyflawni canlyniad. Rhaid i'r holl ganlyniadau fod yn ddigon diriaethol a theg, gan adlewyrchu'r hyn sy'n wirioneddol o fewn rheolaeth y ffermwr.

Bydd yr ymgynghoriad sydd ar ddod yn cynnig cyfres o ganlyniadau i Lywodraeth Cymru eu targedu.

Mewn llawer o achosion, gellir cyflawni canlyniadau unigol drwy nifer o gamau gweithredu gwahanol. Yn yr un modd, gall gweithredoedd unigol gael effaith gadarnhaol ar nifer o ganlyniadau. Mae'r tabl yn dangos hyn ar gyfer y canlyniad enghreifftiol o ansawdd aer gwell.

Canlyniad Targed	Camau gweithredu posibl	Canlyniadau Ychwanegol	Manteision
Gwell ansawdd aer	Arferion rheoli maethynnau a phridd	Gwell cynhyrchiant	I fusnes y fferm
		Gwell iechyd a lles anifeiliaid	
	Arferion rheoli tail a slyri	Llai o risg i iechyd y cyhoedd	I'r cyhoedd yn gyffredinol
	Arferion rheoli anifeiliaid	Ansawdd dŵr gwell	I'r amgylchedd I'r fferm, drwy'r taliad ffermio cynaliadwy
	Rheoli coetiroedd, ar gyfer atal llygryddion	Cynefinoedd gweithredol	
		Datgarboneiddio	



Drwy roi'r camau gweithredu sydd fwyaf priodol i amgylchiadau'r fferm ar waith, gall y ffermwr gynnig amryw o fanteision, nid yn unig i'w fusnes ei hun ond hefyd i'r gymdeithas ehangach.

Defnyddir yr ymgynghoriad sydd ar y gweill a'r broses cydgynllunio â rhanddeiliaid (gweler isod) i helpu i benderfynu ar y camau gweithredu penodol ar ffermydd sy'n cyflawni'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio yn y ffordd orau.

Yn hyn oll, mae'n bwysig sicrhau y gall taliadau ffermio cynaliadwy gyfrannu'n ystyrlon at incwm net busnesau fferm. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gall llawer o ffermwyr ddibynnu ar daliadau cymorth i wneud elw, yn union fel y maent yn ei wneud gyda'r BPS ar hyn o bryd.

### Datblygu busnes

Dylai'r taliadau fferm cynaliadwy wella busnes y fferm drwy ddarparu ffrwd incwm sefydlog. Bydd y camau gweithredu yn gyson â gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol y fferm. Wrth wneud hynny, mae'r argymhellion yn ceisio gwella cydnerthedd cyffredinol y fferm.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r cynllun newydd i ddarparu cymorth ar gyfer datblygu busnesau fferm. Nid yw hyn yn ddim gwahanol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau yn sectorau eraill yr economi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio ei bod yn debygol o fod yn fwy anodd i ffermydd Cymru gystadlu ar ôl Brexit.

Bydd cyllid cyfalaf a mathau eraill o gymorth untro yn cael eu hystyried ar gyfer ymyriadau sy'n cyfrannu at wella busnes, gyda'r nod o gynyddu maint elw a gwella sefyllfa ariannol fferm. Byddai hyn yn cael ei asesu yng nghyd-destun cynaliadwyedd cyffredinol y fferm.

Rydym yn bwriadu mabwysiadu dull o wella busnes sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn adlewyrchu tystiolaeth gref fod cynaliadwyedd economaidd busnesau fferm yn dibynnu ar eu gallu i gynllunio'n effeithiol, gosod nodau a arweinir gan y farchnad a monitro perfformiad.

Mae ymddygiadau a sgiliau ffermwyr a'u gweithwyr yn elfennau hanfodol o ran gallu cystadlu yn y tymor hir. Ein cam cyntaf felly fyddai darparu cymorth busnes cynhwysfawr a hyfforddiant sgiliau i ffermwyr ble mae angen hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod y gallu ganddynt i ymateb i amgylchedd masnachu sy'n newid ac i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i wella eu gallu i gystadlu.

Yn dilyn hyn, rydym yn bwriadu cefnogi ffermwyr ymhellach drwy gysoni buddsoddiad ariannol â'u nodau busnes. Nod y buddsoddiadau fyddai rhoi hwb i gydnerthedd busnesau, p'un a yw'r fferm yn ceisio gwella cynhyrchiant ymhellach drwy dechnoleg neu seilwaith newydd, neu drwy geisio cychwyn menter newydd i arallgyfeirio ei hincwm. Bydd pob buddsoddiad yn dibynnu ar achos busnes i ddangos sut y bydd y prosiect yn gwella proffidioldeb busnes y fferm

### Ymateb i bryderon ffermwyr

Mae'r drafodaeth am nodau llesiant yn dangos y manteision sy'n deillio o reoli tir yn gynaliadwy, ac o ganlyniad, ffermydd cynaliadwy. Gall ffermydd cynaliadwy fod yn gydnerth yn wyneb anwadlrywydd rhesymol, a gallant hefyd wella'r amgylchedd a sicrhau bod ein tir yn gallu cynhyrchu bwyd yn y tymor hir.

Mae'r cynigion polisi diwygiedig wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd ynghylch symud i ffrwd o'r BPS (fel y disgrifir yn yr atodiad BPS i grynodedd Miller Research o'r ymatebion).

Dywedodd ffermwyr wrthym nad oeddent am weld eu ffermydd yn cael eu hollti'n artiffisial rhwng tir sy'n "cynhyrchu bwyd" a thir "nwyddau cyhoeddus". Ein hymateb cyffredinol i'r pryderon hyn yw cyfuno

agweddau amgylcheddol ac economaidd ein cynigion yn *Brexit a'n Tir*. Drwy gyfuno'r cynlluniau, rydym yn caniatáu asesiad hollgynhwysol o botensial economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol pob fferm.

Mynegodd ffermwyr bryderon ynghylch sut y byddent yn gallu cystadlu'n rhyngwladol heb y BPS. Ar ôl Brexit, bydd y DU yn fwy agored i fasnachu ac mae hyn yn cynnig rhagolygon newydd a risgiau newydd. Er y bydd cyfleoedd i ffermydd uchel eu perfformiad, bydd yn anoddach bod yn gydnerth. Rydym felly'n cynnig rhoi cymorth i wella busnesau er mwyn cynyddu eu helw a chynllunio'r taliadau ffermio cynaliadwy i fod yn rhan annatod o incwm net fferm.

Mae hyn yn cysylltu'n agos â'r anwadalrwydd – nodwyd bod angen i gymorth fferm helpu ffermwyr i ymdopi â'r cyfnodau llwyddiannus ac aflwyddiannus anoche sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynradd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn bwysicach fyth gan y bydd ffermwyr yn debygol o ddod i fwy o gysylltiad â natur anwadal y farchnad ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Cynigir gosod taliadau ffermio cynaliadwy ar lefel a all gyfrannu'n gadarnhaol at elw net y fferm. Cynigir ymhellach y bydd lefel y taliadau blynyddol yn cael ei gosod mewn contractau aml-flwyddyn gyda ffermwyr. Yn allweddol, bydd hon yn ffrwd incwm sefydlog gan nad yw'n gysylltiedig â phrisiau nwyddau, nid yw'n cael ei heffeithio gan y gyfradd gyfnewid ac ni all mewforion rhatach ddisodli canlyniadau nwyddau cyhoeddus Cymru.

Dyweddodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrthym fod angen i ni fynd i'r afael yn gliriach â phwysigrwydd cynhyrchu bwyd. Rydym bellach o'r farn bod canlyniadau sylweddol o ran nwyddau cyhoeddus a all godi yn sgil cynhyrchu bwyd cynaliadwy. Rydym yn cynnig cefnogi'r rhain gyda ffrwd incwm. At hynny, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda datblygu brand bwyd a diod Cymru i archwilio'r cyfleoedd i ddefnyddio'r cynllun i gefnogi Brand Cymru.

Ceir cynnig cryf ar y farchnad ar gyfer cynnyrch cynradd Cymru sydd wedi rhoi nwyddau cyhoeddus i'r gymdeithas yng Nghymru drwy ei gwaith cynhyrchu.

Yn olaf, cafwyd adborth cryf ar bwysigrwydd amddiffyn y ffermwr gweithredol a sicrhau mynediad teg i ffermwyr sy'n denantiaid. Cynigir felly y bydd y cynllun newydd yn talu am ganlyniadau na ellir ond eu cyflawni drwy barhau i ffermio neu reoli tir. Mae'n rhaid i'r cynllun wobrwyo'r rhai sy'n gwneud y gwaith – rydym yn bwriadu talu am ffermio neu reoli tir sy'n cynhyrchu canlyniadau, nid ar gyfer perchnogaeth tir.

Felly, bydd bob amser angen gweithgarwch priodol ar y tir. Safbwynt Llywodraeth Cymru yw na ddylai tenantiaid statudol gael eu rhoi dan anfantais wrth gael gafael ar gymorth fferm yn sgil y ffaith eu bod yn denant yn hytrach na pherchennog. I'r perwyl hwnnw, rydym yn ymgynghori'n gyfochrog â Llywodraeth y DU ar newidiadau posibl i ddeddfwriaeth tenantiaeth. Os yw'n briodol, gellir cynnwys darpariaeth o'r fath yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) arfaethedig.

## **Polisiau galluogi**

Er mai cynllun ffermio cynaliadwy yw prif offeryn Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni ei hamcan o reoli tir yn gynaliadwy, mae yna ddulliau pwysig eraill y dylid eu hystyried yn gyfochrog – rheoleiddio, cyngor a chefnogaeth i'r diwydiant ehangach. Bydd pob un o'r rhain yn cael eu trafod yn y ddogfen ymgynghori arfaethedig.

Yn gyntaf, dylid ystyried y cynllun yng nghydestun y fframwaith rheoleiddio y mae'n rhaid i ffermwyr a rheolwyr tir eraill weithio oddi mewn iddo. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai taliadau a ddarperir gan y cynllun fod yn gyfnewid am ganlyniadau sy'n uwch na'r safon ofynnol a ragnodir gan reoliad. Mae'n bwysig felly ystyried lefel y rheoleiddio ar yr un pryd â chyfraddau talu. Wrth wneud hyn, mae cyfle i symleiddio a hwyluso'r



gofynion a roddir ar ffermwyr. Bydd hefyd yn bwysig ystyried sut y caiff cydymffurfiaeth â rheoliadau ei monitro a'i gorfodi.

Yn ail, dylai cyngor ymarferol a diduedd fod ar gael i ffermwyr i'w helpu i benderfynu sut i wneud eu ffermydd yn fwy cynaliadwy ar ôl Brexit, ac yn arbennig i drafod yr holl gyfleoedd o ran y nwyddau cyhoeddus sydd ar eu fferm. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd hyn yn arwain at well canlyniadau ar ffermydd.

Yn olaf, mae angen i ni ystyried llwyddiant a chynaliadwyedd y diwydiant amaethyddol ehangach a'i gadwynau cyflenwi. Ni allwn gyflawni ein hamcanion ar gyfer ffermydd heb hyn. Dyma pam fod y cynnig ar gyfer Cynllun Cadernid Economaidd yn *Brexit a'n Tir* yn cwmpasu ffermydd a'u cadwyni cyflenwi yn ogystal. Mae elfennau ffermydd y Cynllun Cadernid Economaidd bellach wedi'u cynnwys yn y cynllun cynaliadwyedd fferm newydd arfaethedig. Mae achos da o hyd fodd bynnag dros gefnogi'r diwydiant ehangach os yw'n helpu i gyflawni'r amcan rheoli tir cynaliadwy.

### **Pontio a'r camau nesaf**

Ymgynghorodd *Brexit a'n Tir* ar amserlen uchelgeisiol i gwblhau'r diwygio erbyn 2025. Yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd BPS yn cael ei dalu yn 2020.

Ers mis Gorffennaf y llynedd, dim ond cynyddu a wnaeth yr ansicrwydd ynghylch Brexit. Mae hyn yn effeithio ar y modd y byddwn yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, natur ein perthynas fasnachu yn y dyfodol a'r cyllid a fydd ar gael i gefnogi ffermydd. Ni allwn wneud penderfyniadau ar yr amserlen ar gyfer diwygio heb wybod mwy yn gyntaf.

Rydym hefyd yn glir na allwn wneud newidiadau nes y gallwn ddangos bod system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol, ein bod wedi cynnal yr asesiadau effaith perthnasol a'n bod ni'n hyderus ei

bod yn weinyddol ymarferol. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn y mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ei ddweud wrthym am rôl gyfredol y BPS a'i effaith ehangach.

Nid ydym yn tanbriso'r her, a bydd yn cymryd amser i gael popeth yn iawn. Ymhellach, mae cyrff rhanddeiliaid o bob barn wedi dangos eu bod yn barod i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i helpu i gynllunio elfennau ymarferol y system gymorth newydd.

Gan adlewyrchu hyn, yn dilyn cyhoeddi'r ymgynghoriad nesaf, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio proses o gydgyllunio gyda ffermwyr, coedwigwyr, cynghorwyr, academyddion a chyirff rhanddeiliaid yn yr hydref. Bydd yr ymgynghoriad hwnnwn'n nodi'r paramedrau ar gyfer y cynllun newydd arfaethedig, fel y gallwn fynd ymlaen i weithio gyda rhanddeiliaid i ystyried yr agweddau ymarferol.

O ran deddfwriaeth, mae Bil Amaethyddiaeth 2019 ar ei daith drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Pan ddaw'r gyfraith i rym, bydd yn cynnwys pwerau a dyletswyddau i Weinidogion Cymru eu defnyddio hyd nes y daw Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gerbron y Cynulliad. Caiff yr amseriad ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ei bennu yng nghyd-destun penderfyniadau ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

### **Asesiad Effaith**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i gynnal yr asesiadau modelu ac effaith angenrheidiol cyn cyflwyno cynigion terfynol.

Y pecyn tystiolaeth, Amaethyddiaeth yng Nghymru, a gyhoeddwyd heddiw yw'r cam cyntaf yn y dasg hon. Mae'n nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r BPS er mwyn caniatáu i effaith y polisi newydd gael ei hasesu mewn cymhariaeth â'r sefyllfa bresennol.

Mae'r pecyn tystiolaeth yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i lunio cyfres o fodolau fferm cynrychioliadol i amcangyfrif ystod o effeithiau ariannol ac economaidd ein cynigion ar ffermydd o wahanol fathau, meintiau a lleoliadau yng Nghymru. Bydd hon

yn broses ailadroddus a bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ystod ehangach o asesiadau effaith a fydd yn cael eu cynnal maes o law.

Mae'n rhaid gwneud dau beth pwysig i ddatblygu'r gwaith hwn. Yn gyntaf, mae angen cyllideb y cytunwyd arni. Er bod Llywodraeth y DU wedi addo cynnal lefelau arian parod o gymorth amaethyddol tan 2022, nid oes sicrwydd ynghylch beth fydd yn digwydd wedi hynny na sut y bydd cyllid yn cael ei ddychwelyd i Gymru. Yn ail, mae angen i ni gynnal ymgynghoriad pellach a chydgyllunio â rhanddeiliaid i benderfynu ar y camau gweithredu penodol ar ffermydd sy'n cyflawni'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio yn y ffordd orau. Unwaith y bydd y rhain yn hysbys, byddwn yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i asesu'r effaith ar wahanol fathau o ffermydd ledled Cymru.

## Casgliad

Croesawn y drafodaeth a gawsom drwy'r ymgynghoriad *Brexit a'n Tir*, a bydd ein polisi yn y dyfodol yn well o'r herwydd. Mae cynaliadwyedd bellach yn ganolog i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio. Bydd yr ymgynghoriad arfaethedig yn nodi ac yn ceisio barn ar yr hyn y mae hyn yn ei olygu o ran cymorth i ffermydd yn y dyfodol yn fanylach. Bydd hwn yn ymgynghoriad gwirioneddol. Nid yw unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud ynghylch unrhyw agwedd ar y system gymorth ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr ac eraill ar y cynigion ac ni fyddwn yn cyflwyno newidiadau nes bod asesiadau effaith wedi'u cwblhau a gweithrediadau yn barod.









[llyw.cymru](http://llyw.cymru)